# 2.3.1. (b) Hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r sector Gofal Plant

Mae'r nodau o gael targedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cynnwys y canlynol:

- Creu diwylliant cynhwysol i bob aelod o staff ac unigolion.
- Galluogi pob aelod o staff ac unigolion i ddatblygu i'w potensial llawn.
- Chwalu rhwystrau a all greu gwahaniad.
- Sicrhau nad yw polisïau, gweithdrefnau a phrosesau yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un.
- Sicrhau bod cyfleoedd cyfartal i unigolion gymryd rhan yn llawn yn eu gofal a/neu'r broses ddysgu. Creu amgylchedd lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch, lle mae unigolion yn cael y wybodaeth ddiweddaraf a lle mae ganddynt fwy o reolaeth.
- Rhoi sgiliau i staff ac unigolion allu herio anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn eu hamgylchedd gwaith/astudio.
- Trin unigolion yn deg a chreu man lle mae pawb yn bwysig. Cynnwys tegwch yn y gofal fel bod pawb yn cael cyfle cyfartal ac yn cael eu trin yn gyfartal.
- Sicrhau bod anghenion mynediad unigolion yn cael eu bodloni.
- Sicrhau na fydd unrhyw ddeunyddiau adnoddau yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolion na grwpiau o bobl.

**Parch**
**Mynediad**
**Urddas**
**Amrywiaeth**
**Polisïau**
**Cydraddoldeb**
**Cynhwysiant**
**Dileu rhwystrau**
**Gweithdrefnau**